

Cysylltau YouTube ar gyfer Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

The Strangest Hotel in Britain – gwesty sector gwirfoddol a sefydlwyd i alluogi oedolion ifanc sy'n byw gydag anawsterau amrywiol i ddatblygu sgiliau ar gyfer y gweithle a sgiliau i'w galluogi i fyw'n annibynnol. Cyfweiliadau gyda rhieni, staff cefnogi a defnyddwyr gwasanaeth.

<https://www.youtube.com/watch?v=42SteMNP-Bw>

So You Think You Can Nurse - mae tri pherson enwog yn mynd i Ysbyty NHS yn Barnsley lle maen nhw'n gweithio fel nyrsys cynorthwyol. Mae'n rhoi trosolwg o weithio ar wahanol wardiau, gan gynnwys ward esgor ac yn y theatr. Da ar gyfer trafodaeth sy'n ymwneud â sgiliau cyfathrebu, rheoli heintiau, urddas, preifatrwydd, monitro staff yn fewnol – a gall myfyrwyr benderfynu pa enwogion sydd fwyaf addas ar gyfer y swydd, ac ati. Mae cyfanswm o dair pennod.

<https://www.youtube.com/watch?v=FZgzQKkCoEM>

https://www.youtube.com/watch?v=HQsyeEzA_-g

<https://www.youtube.com/watch?v=2ENwQBmKn5k>

Rhod Gilbert's Work Experience as a Care Worker – Yn dangos Rhod yn cael ei gyfweled ar gyfer y rôl, hyfforddiant codi a chario, darparu gofal personol, sgiliau cyfathrebu, gweithio mewn cartref gofal yn y Barri, effeithiau emosiynol darparu gofal wedi'i bersonoli a'r gweithgareddau o ddydd i ddydd sy'n digwydd yn y cartref gofal. Datblygu perthynas un-i-un â'r defnyddwyr gwasanaeth. Mae hefyd yn ymdrin â darparu gofal yn y cartref i ddefnyddwyr gwasanaeth ag anghenion cymorth amrywiol. Mae'n dangos Rhod yn trefnu sioe dalent. Mae gofalwr yn darllen cerdd sy'n cael effaith emosiynol ar bawb, gan gynnwys Rhod.

Rhybudd: mae rhywfaint o regi.

<https://www.youtube.com/watch?v=IPtOWXFe9wM>

Noder: Dechreuwch ar 13:31 gan fod y rhaglen yn ailadrodd ei hun!

Operation Ouch: Don't Panic About Puberty – beth yw'r glasoed? Beth sy'n digwydd i'r corff? Hormonau, lleisiau dyfnach mewn bechgyn, blew yn tyfu mewn bechgyn a merched, gwallt seimlyd, marciau ymestyn, rhesymau pam mae merched yn cael hyrddiau o dyfu yn gynharach na bechgyn, ceilliau yn tyfu, smotiau, mislif, hwyliau yn gallu newid yn sydyn, patrymau cysgu yn newid.

<https://www.youtube.com/watch?v=jDWs1YioOjg>

Only Human: The Child Who's Older Than Her Grandmother – mae'n dilyn blwyddyn ym mywyd Hayley Okines, plentyn sydd â Progeria, cyflwr genetig prin. Mae'n dilyn bywyd Hayley yn yr ysgol, gartref, ymweliadau â'r ysbyty i gael archwiliadau, ymweliad â hosbis, ymweliadau i'r cartref gan therapydd galwedigaethol, darpariaeth o'r offer i gefnogi Hayley. Treulio amser gyda Jane, nyrs gofal lliniarol o hosbis, sy'n darparu cymorth yn y cartref i blant sydd ag afiechyd marwol. Mae'n ymdrin â'r gweithgareddau y mae Jane yn eu gwneud gyda Hayley ond hefyd y gefnogaeth y mae'n ei rhoi i rieni Hayley. Mae'r ffilm hon yn ymdrin â sawl agwedd a gallai beri gofid mewn manau.

<https://www.youtube.com/watch?v=luHlxNrV4zE>

Noder: Mae myfyrwyr yn aml yn gofyn a yw Hayley yn dal yn fyw – yn anffodus, bu farw yn 2015, yn 17 oed.